

# Newid Ymddygiad a daearyddiaethau'r Gymraeg

Rhys Jones,  
Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddordau Daear,  
Prifysgol Aberystwyth.

# Astudio Newid Ymddygiad

- Moeseg...
- Effeithiolrwydd...
- Y math o ddinesydd sy'n cael ei greu...

# Astudio Newid Ymddygiad

- Moeseg...
  - Safbwynt ryddfrydol a syniadau JS Mill
  - Penseiri dewis yn newid hyn
  - Ond mae agweddau yn gallu amrywio o sector i sector, e.e. pwtio ac ysmegu o gymharu â phwtio a chynilo?
  - Agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg yn cynnig potensial?

# Astudio Newid Ymddygiad

- Effeithiolrwydd...
  - Ydy newid ymddygiad yn effeithiol?
  - Ydy newid ymddygiad yr un mor effeithiol ymhob sector?
  - Sut mae mesur effeithiolrwydd?

# Astudio Newid Ymddygiad

- Beth sy'n gwneud sefyllfa yn un addas ar gyfer penseiri dewis?
- “Complex decisions that are made once so the decision-maker does not get much practice, decisions of which the outcomes will have consequences in the future, so the costs and benefits are unevenly distributed over time.” (Thaler a Sunstein, 2009:162)

# Astudio Newid Ymddygiad

- Dewis pa iaith i siarad yn broses gymhleth ond rydym yn cael digon o ymarfer (ac yn derbyn adborth)
- Niwed i bwy neu beth? Ein hunain, cymunedau a rhywbeth haniaethol o'r enw'r iaith Gymraeg?
- Ydy'r un deuoliaethau'n bodoli (ysmygu/dim ysmegu o gymharu â siarad Saesneg/Cymraeg)?

# Astudio Newid Ymddygiad

- Y math o ddinesydd sy'n cael ei greu...
  - Polisiau sy'n grymuso unigolion neu'n creu ffyliaid?
  - A oes angen newid gwerthoedd yn ogystal â newid ymddygiad?
  - Pa fath o ddinesydd rydym eisiau ei weld yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd?

# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

## 1. Pwy yw'r penseiri dewis?

- Llunwyr polisi, athrawon, rhieni a.a.
- Angen hyfforddiant arnynt i gyd er mwyn creu'r sefyllfaoedd sy'n mynd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
- Ond mae rhai o'r rhain wedi bod yn gwneud y math yma o waith ers sbel?



# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

- Y negesydd...
- ‘Rwy’n credu bod gan y plant hŷn ddylanwad mawr, a fel soniais i ynghynt, mae cael pencampwr yn helpu i osod safonau, ac yn rhywun y gall y plant ei efelychu, mae hwnna’n bwysig iawn’ (cyfweliad gyda aelod o staff Cered).

# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

## 2. Normau cymdeithasol

- Y neges gyffredinol am dranc yr iaith?
- Defnyddio'r Gymraeg fel eithriad yn hytrach na norm?
- Yr unig norm cadarnhaol yw'r un sy'n gysylltiedig gyda'r Fro Gymraeg?
- Pa normau cadarnhaol y gellir eu poblogeiddio ar gyfer ardaloedd y tu hwnt i'r Fro?

# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

## 3. Emosiwn a'r iaith Gymraeg

- Cymraeg yn gysylltiedig gyda diflastod (e.e. dysgu ail iaith) a dwrdio (siarada Gymrâg!)
- Sut gellir newid hyn fel bod emosiynau mwy cadarnhaol yn gysylltiedig gyda'r iaith?
- Damcaniaeth Hwyl?

# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg



# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

## 4. Marchnata cymdeithasol

- Pwy yw'n cynulleidfaoedd ni? Angen gwahaniaethu rhwng y math o amcanion sydd gennym mewn ardaloedd gwahanol ac ar gyfer carfannau gwahanol
- Sut mae angen teilwra'r neges sy'n mynd i'r cynulleidfaoedd hyn?

# Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

## 5. Ymrwymo a chystadlu

- Ymrwymo i siarad Cymraeg?
- Cystadlu: 'Rydym ni'n cael mwy o lwyddiant drwy wneud y peth yn gystadleuaeth. Chi wastad yn ffeindio, pan mae 'na gystadleuaeth, mae pobl yn newid gôr, achos maen nhw eisiau ennill gwobr.'

# Casgliadau

- Dydy Newid Ymddygiad ddim yn mynd i ateb yr holl heriau sy'n gysylltiedig â defnydd iaith, ond mae potensial...
  - Angen deall beth yw'r ymyrraethau sy'n digwydd ar hyn o bryd a sut mae peth o'r gwaith hyn yn defnyddio syniadau Newid Ymddygiad
  - Angen meddwl beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol am siarad iaith (o gymharu ag ysmegu a.a.)
  - Angen dysgu mwy am yr hyn sydd wedi gweithio mewn meysydd eraill, ac wedyn treialu a gwerthuso gydag ardaloedd/carfannau bychain
  - Ehangu wedyn i ymyrraethau mwy cyffredinol